Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Derbyniadau i ysgolion

## Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026



Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Derbyniadau i ysgolion

## Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026

Mae'r canllaw hwn yn rhoi ychydig o wybodaeth gefndirol am y broses dderbyn i ysgolion a gynhelir yng Nghymru, ac yn ateb rhai cwestiynau cyffredin.

Mae Ymchwil y Senedd yn darparu cymorth ymchwil diduedd i Aelodau o'r Senedd. Ni allwn ohebu yn uniongyrchol ag unigolion neu sefydliadau eraill, na rhoi cyngor na sylwadau ar achosion unigol.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y canllaw hwn at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig i gefnogi gwaith Aelodau o'r Senedd wrth iddynt gynorthwyo eu hetholwyr. Ni fwriedir iddi gymryd lle deddfwriaeth, canllawiau, polisi na chyngor proffesiynol.

Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Cynnwys

**1. Gwneud cais am le mewn ysgol ... 7**

Deddfwriaeth a chanllawiau ... 7

Esboniad o rai termau allweddol ... 7

Beth yw'r rheolau ynghylch sut mae awdurdodau derbyn yn pennu eu trefniadau? ... 8

Sut mae dod o hyd i wybodaeth am drefniadau derbyn ysgolion? ... 9

Pryd mae'n rhaid i rieni wneud cais am le mewn ysgol ar gyfer eu plentyn? ... 10

A all rhieni ddewis ysgol benodol i'w plentyn? ... 10

A yw rhieni'n cael gwarant o le yn eu dewis ysgol? ... 11

Beth fydd yn digwydd os oes mwy o geisiadau yn dod i law nag sydd o leoedd mewn ysgol? ... 11

A oes unrhyw feini prawf gor-alw na chaiff awdurdodau derbyn eu defnyddio? ... 11

A oes unrhyw ofynion i rai plant gael mwy o flaenoriaeth nag eraill? ... 12

A yw plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn sicr o gael lle mewn ysgol benodol? ... 13

A gaiff awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion ffydd roi mwy o flaenoriaeth i blant o'r un ffydd? ... 13

A gaiff awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg roi mwy o flaenoriaeth i blant sy'n siarad Cymraeg? ... 13

A oes unrhyw resymau pam y gall ysgol wrthod derbyn disgybl i ysgol pan mae ganddi ddigon o leoedd? ... 14

Ar ba oedran mae'n rhaid i blentyn ddechrau'r ysgol? ... 14

Beth yw 'mynediad gohiriedig'? ... 15

A all plentyn ymuno â grŵp blwyddyn gwahanol i'w grŵp oedran cronolegol? ... 15

Beth yw 'addysg y blynyddoedd cynnar'? ... 16

A yw'r trefniadau derbyn i'r ysgol feithrin yn wahanol i'r trefnidadau ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd? ... 17

A oes cyfyngiadau ar nifer y plant y gellir eu derbyn i ddosbarthiadau babanod? ..... 17

A oes eithriadau i'r terfynau statudol ar faint dosbarthiadau babanod? ..... 18

A yw'r trefniadau'n wahanol ar gyfer chweched dosbarth? ..... 18

**2. Apelio yn erbyn penderfyniadau ..... 20**

A all rhieni apelio os na chynigir lle iddynt yn eu dewis ysgol? ..... 20

Pwy sy'n clywed apelau? ..... 20

Beth sy'n digwydd os caiff ceisiadau eu gwrthod oherwydd cyfyngiadau statudol ar faint dosbarthiadau babanod? ..... 21

Pa broses y mae apelau'n ei dilyn? ..... 21

A all apelwyr ddod ag unrhyw un gyda nhw i'r gwrandawiad? ..... 22

Os yw apelau'n aflwyddiannus, a ellir mynd â'r mater ymhellach? ..... 22

# 1. Gwneud cais am le mewn ysgol

Rhaid i awdurdodau derbyn (yr awdurdodau sy'n penderfynu pwy sy'n cael ei dderbyn i ysgolion a gynhelir) ymdrin â cheisiadau am leoedd ysgol yn unol â Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a'r Cod Derbyn i Ysgolion (2013). Rhaid i rieni (neu ofalwyr) gael cyfle i fynegi pa ysgol y maent yn ei dewis ar gyfer eu plant, ac mae'n rhaid i awdurdodau derbyn weithredu'n unol â'r dewis hwn oni bai bod eithriadau'n berthnasol. Yr eithriad mwyaf cyffredin yw bod hyn yn 'anfanteisiol' i ddarparu addysg yn effeithlon a bod nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael. Mewn achosion o'r fath, caiff 'meini prawf gor-alw' eu defnyddio.

## Deddfwriaeth a chanllawiau

Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â derbyniadau i ysgolion wedi'i hamlinellu yn **Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998**. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi dau gòd sy'n nodi sut y dylai awdurdodau derbyn fynd ati i gyflawni eu swyddogaethau statudol (dyletswyddau cyfreithiol), sef y **Cod Derbyn i Ysgolion** (2013) a'r **Cod Apelau Derbyn i Ysgolion** (2023).

Mae'r Codau yn pennu gofynion ac yn cynnig arweiniad mewn perthynas â'r camau y mae awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, fforymau derbyn, a phaneli apelau derbyn yn eu cymryd i gyflawni eu swyddogaethau derbyn ac ymateb i apelau. Rhaid i'r cyrff hyn "weithredu yn unol" â'r Codau.

## Esboniad o rai termau allweddol

**Ysgol a gynhelir** – Ysgol sy'n cael ei chyllido yn gyfan gwbl neu'n sylweddol gan awdurdod lleol, yn hytrach nag ysgol annibynnol / preifat. Gall **ysgolion a gynhelir** fod yn ysgolion gymunedol (sy'n eiddo i'r awdurdod lleol ac yn cael eu rhedeg ganddo); ysgolion gwirfoddol a reolir neu ysgolion gwirfoddol a

gynorthwyir (sy'n cael eu rhedeg gan sefydliad gwirfoddol fel esgobaeth grefyddol, gyda lefelau amrywiol o annibyniaeth); neu ysgolion sefydledig (sy'n eiddo i'r corff llywodraethu neu sefydliad elusennol sydd â rheolaeth gyfyngedig gan yr awdurdod lleol).

**Awdurdod derbyn** - Caiff mynediad plant i ysgolion ei reoli a'i weinyddu gan 'awdurdod derbyn'. Mae pa awdurdod derbyn sy'n ymdrin â chais penodol yn dibynnu ar y math o ysgol. Awdurdodau lleol yw'r awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir (oni bai bod y swyddogaeth hon wedi'i dirprwyo'n llawn i'r corff llywodraethu). Yr awdurdod derbyn ar gyfer ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yw corff llywodraethu'r ysgol unigol.

**Fforwm derbyn** – O dan Ddeddf 1998, rhaid i awdurdodau lleol sefydlu fforymau derbyn sy'n monitro cydymffurfiaeth â'r cod derbyn i ysgolion. Mae'r fforymau hyn yn cynnig cyfrwng i awdurdodau derbyn a phartïon allweddol eraill sydd â diddordeb drafod effeithiolrwydd y trefniadau derbyn lleol, ystyried sut mae delio â materion derbyn anodd a chynghori awdurdodau derbyn ynglŷn â sut y gellir gwella'u trefniadau

**Trefniadau derbyn** - Yr awdurdod derbyn sy'n pennu'r trefniadau derbyn. Mae'r trefniadau hyn yn nodi sut y bydd plant yn cael eu derbyn, gan gynnwys y 'meini prawf gor-alw' a fydd yn cael eu defnyddio os oes mwy o geisiadau yn dod i law nag sydd o leoedd mewn ysgol benodol.

**Capasiti ysgol** - Capasiti ysgol yw nifer y lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion yn yr ysgol honno. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau, **Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru**, sy'n nodi'r dull y mae pob ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a gynorthwyir, ysgol wirfoddol a reolir ac ysgol sefydledig yng Nghymru yn ei ddefnyddio i gyfrifo ei chapasiti.

**Nifer derbyn** - Nifer derbyn ysgol yw nifer y disgyblion y gellir eu derbyn i grŵp blwyddyn. Rhaid i awdurdodau derbyn roi sylw i'r 'nifer derbyn dangosol' ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Cyfrifir y nifer derbyn dangosol yn unol â'r dull asesu capasiti a nodir yn y canllawiau mesur capasiti. Cyfrifir y nifer derbyn drwy rannu'r capasiti â nifer y grwpiau blwyddyn yn yr ysgol.

## Beth yw'r rheolau ynghylch sut mae awdurdodau derbyn yn pennu eu trefniadau?

Rhaid i awdurdodau derbyn bennu eu trefniadau derbyn yn unol ag egwyddorion a nodir yn y **Cod Derbyn i Ysgolion**. Rhaid i'r trefniadau hyn:

- fod yn glir;
- bod yn wrthrychol;
- bod yn deg a chyfartal i bob disgybl;
- rhoi mynediad at wybodaeth am drefniadau i rieni; a
- chydymffurfio â'r gyfraith.

Unwaith y bydd awdurdod derbyn wedi penderfynu ar ei drefniadau, rhaid iddo gynnal ymgynghoriad arnynt. Rhaid cynnal ymgynghoriad ar drefniadau derbyn pob ysgol a gynhelir yn ystod y cyfnod rhwng 1 Medi a 1 Mawrth, a rhaid i'r trefniadau hyn gael eu pennu erbyn 15 Ebrill, yn y flwyddyn ysgol (y 'flwyddyn benderfynu') sy'n dechrau ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y bydd y trefniadau'n berthnasol iddi.

Rhaid i awdurdodau derbyn awdurdodau lleol gynnal ymgynghoriad ar y trefniadau ar gyfer eu hysgolion bob blwyddyn. Mae'r rheolau ychydig yn wahanol ar gyfer awdurdodau derbyn sydd hefyd yn gyrff llywodraethu. Rhaid i'r awdurdodau hynny hefyd gynnal ymgynghoriad yn flynyddol oni bai eu bod wedi ymgynghori ar eu trefniadau o fewn y ddwy flynedd benderfynu flaenorol, neu os nad yw'r trefniadau wedi newid ac na chyflwynwyd unrhyw wrthwynebiad i Weinidogion Cymru yn ystod y pum mlynedd blaenorol.

Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn cynnwys gwybodaeth am bwy y mae'n rhaid ymgynghori â hwy a phwy y dylid ymgynghori â hwy, a'r manylion i'w cynnwys yn yr ymgynghoriad. Mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau lleol cyfagos ac awdurdodau derbyn lleol eraill, cyrff llywodraethu, a chyrff crefyddol. Yn dilyn yr ymgynghoriad, rhaid i'r awdurdod derbyn bennu ei drefniadau, gan wneud addasiadau yn ôl yr angen.

## Sut mae dod o hyd i wybodaeth am drefniadau derbyn ysgolion?

Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi prosbectws blynyddol sy'n nodi'r trefniadau derbyn ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn eu hardal. Rhaid i hyn hefyd gynnwys amserlen ar gyfer y broses dderbyn. Yn gyffredinol, cyhoeddir y prosbectysau ar wefannau awdurdodau lleol, ac yn aml mae ganddynt enwau fel 'dechrau'r ysgol' neu 'lawlyfr rhieni'. Mae'r rhain yn esbonio sut i wneud cais am le mewn ysgol.

Rhaid i bob awdurdod derbyn mewn unrhyw ardal awdurdod lleol gael dyddiad dychwelyd cyffredin ar gyfer yr holl geisiadau ysgol gynradd a dyddiad cyffredin ar gyfer yr holl geisiadau ysgol uwchradd ar gyfer y flwyddyn fynediad arferol. Fodd bynnag, gellir cytuno ar wahanol ddyddiadau cyffredin ar gyfer ceisiadau ysgol gynradd a cheisiadau ysgol uwchradd.

## Pryd mae'n rhaid i rieni wneud cais am le mewn ysgol ar gyfer eu plentyn?

Fel arfer, gellir dod o hyd i amserlenni ar gyfer gwneud cais yn y llyfryn gwybodaeth i rieni a gyhoeddir gan awdurdodau lleol, ac ar eu gwefannau. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau derbyn yn agor eu system ceisiadau yn ystod mis Medi a mis Hydref. Mae awdurdodau derbyn yn ystyried yr holl geisiadau gyda'i gilydd ar ôl y dyddiad cau.

Caiff yr oedran y mae plant yn dechrau ysgol ei drafod yn ddiweddarach yn y bennod hon.

## A all rhieni ddewis ysgol benodol i'w plentyn?

Rhaid i awdurdodau derbyn ganiatáu i rieni plant yn eu hardal nodi eu bod yn ffafrio ysgol benodol. Weithiau gelwir hyn yn 'ddewis y rhieni'. Hefyd, gall disgyblion sy'n mynd i'r chweched dosbarth nodi ysgol benodol y maent yn ei ffafrio.

Pan fydd rhiant neu berson ifanc yn mynegi dewis, rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu gydymffurfio â'r dewis hwnnw. Fodd bynnag, mae eithriadau i hynny, sef:

- lle mae trefniadau ar gyfer mynediad i chweched dosbarth ysgol yn seiliedig yn gyfan gwbl ar ddethol yn ôl gallu neu ddawn, a byddai cydymffurfio yn mynd yn groes i’r trefniadau dethol hynny;
- lle mae plentyn wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy a bod y gwaharddiad diweddaraf wedi digwydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf;
- lle byddai cydymffurfio yn **anfanteisiol** i’r gallu i “ddarparu addysg yn effeithlon neu ddefnyddio adnoddau’n effeithlon”. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu gorfod cymryd mesurau aneffeithlon i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r terfyn maint statudol ar ddosbarthiadau babanod, er enghraifft, drwy orfod cyflogi athro ychwanegol neu greu ystafell ddosbarth arall. Mae rhagor o wybodaeth am feintiau

dosbarthiadau babanod wedi'i hamlinellu mewn ymateb i gwestiwn yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

Mewn blwyddyn fynediad arferol, ni cheir gwrthod derbyn plentyn i ysgol ar sail anfantais i addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau, ac eithrio pan fo nifer y ceisiadau am fynediad yn fwy na'r nifer derbyn. Fodd bynnag, gallai fod yn rhesymol i awdurdod derbyn arfer ei ddisgresiwn, mewn amgylchiadau eithriadol, i dderbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer derbyn. Gallai hyn fod, er enghraifft, lle mae nifer sylweddol o leoedd dros ben ar draws y grwpiau blwyddyn yn yr ysgol neu os oes prinder dros dro o fath penodol o ddarpariaeth mewn ardal benodol (er enghraifft, addysg cyfrwng Cymraeg), tra bod gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau darpariaeth ychwanegol.

Rhaid i bob ysgol a gynhelir sydd â digon o leoedd ar gael (hyd at y nifer derbyn, ac yn cynnwys y ffigur hwn) gynnig lle i bob plentyn sydd wedi gwneud cais (ac eithrio'r plant sydd wedi'u gwahardd o leiaf ddwywaith).

## A yw rhieni'n cael gwarant o le yn eu dewis ysgol?

Er y gall rhieni nodi eu bod yn ffafrio ysgol benodol, os oes mwy o geisiadau yn dod i law nag sydd o leoedd, gallant fod yn aflwyddiannus a pheidio â chael cynnig yr opsiwn a ffefrir ganddynt.

## Beth fydd yn digwydd os oes mwy o geisiadau yn dod i law nag sydd o leoedd mewn ysgol?

Fel rhan o'u trefniadau derbyn, rhaid i awdurdodau derbyn ddefnyddio meini prawf i benderfynu sut mae lleoedd yn cael eu dyrannu os oes mwy o geisiadau yn dod i law nag sydd o leoedd. Gelwir y rhain yn '**meini prawf gor-alw'**.

Er bod gan awdurdodau derbyn ddisgresiwn dros y meini prawf hyn, rhaid iddynt fod yn glir, yn wrthrychol, yn gyfiawn o ran eu gweithdrefn, ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth. Rhaid i'r awdurdod derbyn ymgynghori ar ei feini prawf gor-alw ac yna eu cyhoeddi.

## A oes unrhyw feini prawf gor-alw na chaiff awdurdodau derbyn eu defnyddio?

Rhaid i awdurdodau derbyn sicrhau na fydd trefniadau yn rhoi plentyn o grŵp cymdeithasol neu hiliol penodol, neu blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol, dan anfantais annheg, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Rhaid

sicrhau nad yw'r meini prawf yn gofyn am 'ddehongli' o unrhyw fath a rhaid iddynt fod yn glir ac yn ddiamwys.

Mae’r Cod Derbyn i Ysgolion yn cynnwys rhestr o ‘feini prawf annymunol ar gyfer gor-alw’ na ddylai awdurdodau derbyn eu hystyried na’u defnyddio, megis dethol yn ôl gallu neu ddawn. Mae rhai eithriadau i hyn, megis chweched dosbarth. Mae meini prawf gor-alw annymunol hefyd yn cynnwys rhoi blaenoriaeth i rai darpar ddisgyblion dros ddisgyblion eraill; er enghraifft, drwy ofyn a ydynt yn blant i staff, plant sydd wedi cael problemau ymddygiad, plant o grwpiau ffydd penodol (gydag eithriadau) neu blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

## A oes unrhyw ofynion i rai plant gael mwy o flaenoriaeth nag eraill?

Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn cydnabod bod plant sy'n derbyn gofal ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed, felly mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau derbyn roi'r flaenoriaeth uchaf yn eu meini prawf gor-alw i blant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd gynt yn derbyn gofal.

Gall ysgolion ffydd roi blaenoriaeth i blant o'r un ffydd (gweler y cwestiwn perthnasol yn nes ymlaen yn y ddogfen hon). Fodd bynnag, rhaid iddynt barhau i roi'r flaenoriaeth uchaf i blant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd gynt yn derbyn gofal. Mae hyn yn golygu:

- rhaid rhoi blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal sydd o’r un ffydd â’r ysgol dros bob plentyn arall o'r ffydd honno; a
- rhaid parhau i roi blaenoriaeth uwch i blant sy'n derbyn gofal nad ydynt o’r un ffydd â’r ysgol na phlant eraill nad ydynt o'r ffydd honno.

Mae'r Cod yn cynnwys rhywfaint o ganllawiau ar bennu meini prawf teg yn achos gor-alw. Er nad yw'n nodi y dylai'r meini prawf a restrir fod y meini prawf a ffefrir, mae'n cynnig arweiniad ar eu priodoldeb. Mae’r rhestr o feini prawf posibl yn cynnwys:

- brodyr a chwiorydd disgyblion sy’n dal i fod yn yr ysgol;
- anghenion meddygol;
- pellter o'r cartref; a’r
- defnydd o ddalgylchoedd.

## A yw plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn sicr o gael lle mewn ysgol benodol?

Daeth y broses o gyflwyno'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd, a sefydlwyd o dan **Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018** i ben ym mis Medi 2025. Rhoddir Cynllun Datblygu Unigol (CDU) statudol i bob dysgwr ag ADY i nodi ei anghenion a pha ymyriadau sydd eu hangen arno.

Mae **Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021)** yn nodi y caiff awdurdod lleol enwi ysgol a gynhelir mewn cynllun datblygu unigol y mae'n ei lunio neu'n ei gynnal ar gyfer plentyn. Lle y caiff ysgol a gynhelir ei henwi, rhaid i'r ysgol honno dderbyn y plentyn dan sylw p'un a yw hynny'n golygu y bydd yn mynd y tu hwnt i'w nifer derbyn neu'r terfyn statudol ar feintiau dosbarthiadau babanod ai peidio.

## A gaiff awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion ffydd roi mwy o flaenoriaeth i blant o'r un ffydd?

Gall ysgolion sydd â chymeriad crefyddol dynodedig roi blaenoriaeth i aelodau o ffydd neu enwad penodol. Fodd bynnag, rhaid i hyn beidio â gwrthdaro â deddfwriaeth arall, megis deddfwriaeth cydraddoldeb neu ddarpariaethau gorfodol y Cod Derbyn i Ysgolion.

Rhaid i ysgolion ffydd beidio â chadw lleoedd yn agored os nad oes ganddynt ddigon o ymgeiswyr o'u ffydd eu hunain ac mae rhieni eraill wedi gwneud cais am le. Mewn achosion lle dylid rhoi blaenoriaeth i aelodau o ffydd benodol, rhaid i drefniadau derbyn a gyhoeddir gan yr awdurdod derbyn nodi'n glir sut y dylid dangos cysylltiad neu ymrwymiad crefyddol, er enghraifft, drwy offeiriad teulu, gweinidog, neu gynrychiolydd arall yr eglwys.

## A gaiff awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg roi mwy o flaenoriaeth i blant sy'n siarad Cymraeg?

Rhaid i awdurdodau derbyn beidio â mabwysiadu meini prawf gor-alw sy'n dewis disgyblion ar sail gallu neu ddawn. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, yn achos ysgolion cyfrwng Cymraeg, y gallu i siarad Cymraeg.

Yr eithriad i'r gwaharddiad cyffredinol hwn ar feini prawf yn seiliedig ar allu, sy'n berthnasol i bob ysgol, yw ysgolion sydd â threfniadau rhannol ddetholus a oedd eisoes â threfniadau o'r fath ar waith ar ddechrau blwyddyn ysgol 1997/98 ac y caniateir iddynt barhau i ddefnyddio system o ddethol yn ôl gallu. Mae yna

eithriad hefyd mewn perthynas â dewis yn ôl gallu ar gyfer chweched dosbarth (mae rhagor o wybodaeth wedi'i nodi mewn ymateb i'r cwestiwn perthnasol yn nes ymlaen yn y ddogfen hon).

## A oes unrhyw resymau pam y gall ysgol wrthod derbyn disgybl i ysgol pan mae ganddi ddigon o leoedd?

Yn gyffredinol, rhaid i ysgolion sydd â digon o leoedd gydymffurfio â dewis rhieni. Fodd bynnag, lle mae plentyn wedi cael ei wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy, caiff y gofyniad i gydymffurfio â'r dewis ei ddileu am gyfnod o ddwy flynedd o'r dyddiad y digwyddodd y gwaharddiad diweddaraf. Mae eithriadau i'r rheol hon ac nid yw'n berthnasol i:

- blant a oedd o dan oedran ysgol gorfodol pan gawsant eu gwahardd;
- plant a wnaeth ddychwelyd ar ôl gwaharddiad parhaol;
- plant a fyddai wedi dychwelyd yn dilyn gwaharddiad parhaol pe bai wedi bod yn ymarferol iddynt wneud hynny; a
- phlant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd gynt yn derbyn gofal, lle mae'r cais am le yn cael ei wneud gan riant corfforaethol neu ar ei ran.

Mae awdurdodau lleol yn dal i fod yn gyfrifol am ddarparu addysg amser llawn addas ar gyfer plant sydd wedi'u gwahardd ddwywaith, ac efallai y bydd yn rhaid iddynt ddefnyddio eu pwerau cyfarwyddo i sicrhau lle mewn ysgol, neu ddarparu lle mewn Uned Cyfeirio Disgyblion neu ddarpariaeth addysg arall.

## Ar ba oedran mae'n rhaid i blentyn ddechrau'r ysgol?

Yn unol â darpariaethau **adran 8 o Ddeddf Addysg 1996**, rhaid i blant fynd i'r ysgol yn llawn amser **o ddechrau'r tymor cyntaf sy'n dechrau ar ôl eu pen-blwydd yn bump oed**. Gelwir hyn yn 'oedran ysgol gorfodol'. Y dyddiadau diwedd tymor yw 31 Mawrth, 31 Awst a 31 Rhagfyr.

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cynnig addysg yn yr ysgol o ddechrau'r flwyddyn academaidd y mae plentyn yn troi'n bump oed. Gelwir hyn yn 'flwyddyn derbyn'.

Cyn hynny, mae **hawl i gael o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg y blynyddoedd cynnar** ar gyfer pob plentyn o'r tymor cyntaf ar ôl iddo droi'n dair oed, gyda rhai awdurdodau lleol yn cynnig mwy. Nid oes yn rhaid i rieni dderbyn

y cynnig hwn. Gall rhai plant hefyd fod yn gymwys i gael gofal plant am ddim o dan **bolisïau gofal plant** Llywodraeth Cymru.

## Beth yw 'mynediad gohiriedig'?

Fel y nodwyd uchod, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynnig lleoedd mewn dosbarth derbyn i blant ar ddechrau'r flwyddyn academaidd y mae’r plant hynny yn troi’n bump oed, pan fo’r plant yn dal o dan oedran ysgol gorfodol. Mynediad gohiriedig yw'r term a ddefnyddir pan fo rhiant yn gofyn bod ei blentyn sydd o dan oedran ysgol gorfodol yn mynd i'r ysgol yn rhan-amser yn unig neu’n gohirio dechrau yn yr ysgol tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn academaidd honno. Effaith mynediad gohiriedig yw bod y lle'n cael ei gadw ar gyfer y plentyn ac na ellir ei gynnig i unrhyw un arall.

Ni fyddai’r rhiant yn gallu gohirio mynediad y tu hwnt i ddechrau'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn bump oed, nac y tu hwnt i'r flwyddyn ysgol y derbyniwyd y cais gwreiddiol ynddi. I blentyn nad yw eto o oedran ysgol gorfodol, mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i'r plentyn hwnnw ddechrau yn yr ysgol cyn diwedd tymor yr haf. Fel arall, bydd y plentyn yn colli ei le yn y dosbarth a bydd yn rhaid i'r rhiant ail-ymgeisio am le yn yr ysgol ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Yn gyffredinol, bydd plant yn parhau i ddilyn eu grŵp blwyddyn cronolegol. Os na fydd rhiant yn dymuno i’w blentyn sydd o dan oedran ysgol gorfodol ddechrau yn yr ysgol rywbryd yn ystod y flwyddyn derbyn, ni fyddai'r plentyn fel arfer yn ymuno â'r dosbarth derbyn nesaf, ond byddai'n ymuno â'r dosbarth y cynigiwyd lle iddo ynddo yn wreiddiol (a fyddai wedyn yn Flwyddyn 1).

Os yw'r rhiant am i’w blentyn ddechrau yn y dosbarth derbyn ar ôl iddo gyrraedd oedran ysgol gorfodol (er enghraifft, rhai o ‘blant yr haf’, y mae eu penblwydd yn syrthio rhwng 31 Mawrth a 31 Awst), bydd yn rhaid iddo wneud cais i ddechrau yn yr ysgol 'y tu allan i'r grŵp oedran arferol'.

## A all plentyn ymuno â grŵp blwyddyn gwahanol i'w grŵp oedran cronolegol?

Efallai y bydd achosion lle hoffai rhieni i'w plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol y tu allan i'w grŵp blwyddyn cronolegol—er enghraifft, yn achos ‘plant yr haf’, fel y soniwyd uchod; plant sy'n fwy galluog a thalentog (sy’n dymuno ymuno â grŵp blwyddyn hŷn); neu blant sydd wedi profi problemau ac wedi colli rhan o flwyddyn ysgol.

Yn yr achosion hyn, mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn nodi y dylai awdurdodau derbyn ystyried y ceisiadau hyn yn ofalus a gwneud penderfyniadau ar sail amgylchiadau pob achos, drwy ymgynghori â'r rhieni ac â'r ysgol, ac yn benodol, drwy ystyried beth fyddai fwyaf buddiol i'r plentyn.

## Beth yw 'addysg y blynyddoedd cynnar'?

Fel y nodwyd uchod, mae hawl i gael o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer pob plentyn o'r **tymor cyntaf ar ôl iddo droi'n dair oed**, gyda rhai awdurdodau lleol yn cynnig mwy. Gall rhieni ddewis manteisio ar y cynnig hwn ai peidio.

Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth ddigonol o ran addysg feithrin i blant yn eu hardal. Mae hyn yn golygu **o leiaf 10 awr o ddarpariaeth yr wythnos** am yr un nifer o wythnosau â'r flwyddyn ysgol arferol (39 wythnos) mewn naill ai:

- ysgol (lleoliad a gynhelir); neu
- leoliad nas cynhelir sydd wedi'i gofrestru gyda'r awdurdod lleol i ddarparu addysg feithrin (megis gwarchodwr plant, cylch meithrin, meithrinfa ddydd neu grŵp chwarae).

Yr awdurdod lleol, nid y rhiant, sy'n penderfynu a yw'r ddarpariaeth feithrin yn cael ei chynnig mewn ysgol neu mewn lleoliad nas cynhelir, yn dibynnu ar amgylchiadau lleol megis a oes digon o gapasiti mewn lleoliadau a gynhelir i ateb y galw. Gan fod addysg feithrin yn ddarpariaeth anstatudol, nid oes gan rieni hawl statudol i apelio os nad ydynt yn cael cynnig lle yn y ddarpariaeth o'u dewis.

Rhaid i ddarparwyr addysg y blynyddoedd cynnar ddilyn y **Cwricwlwm i Gymru**. Gall lleoliadau nas cynhelir naill ai ddylunio eu cwricwlwm eu hunain o fewn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru neu fabwysiadu'r **Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir** a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion yn dilyn y cwricwlwm y mae'r ysgol berthnasol wedi'i ddylunio o fewn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

Mae rhagor o fanylion am addysg y blynyddoedd cynnar wedi'u nodi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru: **Addysg feithrin i blant 3 a 4 oed: Canllawiau i awdurdodau lleol**.

## A yw'r trefniadau derbyn i'r ysgol feithrin yn wahanol i'r trefnidadau ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd?

Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am benderfynu ar dderbyniadau i ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir. Rhaid i awdurdodau derbyn sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'r broses ffurfiol ar gyfer gwneud cais am le. Dylid sefydlu meini prawf gor-alw gan ddefnyddio'r un egwyddorion â'r rhai ar gyfer darpariaeth oedran ysgol statudol.

Dylai awdurdodau derbyn ddatgan yn glir bod **trefniadau derbyn ar wahân** ar gyfer dosbarth meithrin mewn ysgol i'r trefniadau ar gyfer lleoedd ysgol o'r dosbarth derbyn ymlaen. Bydd yn rhaid i rieni plant sy'n cael eu derbyn i addysg feithrin hefyd wneud cais am le yn yr ysgol os ydynt am i'w plentyn drosglwyddo i'r dosbarth derbyn. Nid yw'r ffaith bod plentyn yn mynychu'r dosbarth meithrin mewn ysgol ynddo'i hun yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd y plentyn hwnnw'n cael lle yn y dosbarth derbyn.

## A oes cyfyngiadau ar nifer y plant y gellir eu derbyn i ddosbarthiadau babanod?

Mae cyfyngiadau statudol (cyfreithiol) ar faint dosbarthiadau, a osodwyd gan y **Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Meintiau Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013**. Pan fydd un athro ysgol yn bresennol, ni chaiff dosbarthiadau babanod (dosbarth derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2) gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion. Gall awdurdod derbyn wrthod derbyn plentyn i ysgol lle byddai gwneud hynny'n 'anfanteisiol o ran maint y dosbarth'. Mae hyn yn golygu y byddai derbyn y plentyn yn anfanteisiol i addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau o ganlyniad i'r mesurau perthnasol y byddai eu hangen i gydymffurfio â'r ddyletswydd i gyfyngu ar niferoedd mewn dosbarthiadau babanod; er enghraifft, pe bai'n rhaid cyflogi athro ychwanegol neu greu ystafell ddosbarth arall.

Fodd bynnag, o ran y flwyddyn derbyn, ni ellir dweud y byddai anfantais o'r fath yn codi oni bai y byddai'r niferoedd yn codi'n uwch na nifer derbyn yr ysgol. Gall awdurdodau derbyn wrthod derbyn plentyn ar gyfer lleoedd mewn unrhyw flwyddyn heblaw'r flwyddyn mynediad arferol (derbyn), pe bai cynnig lle yn anfanteisiol o ran maint y dosbarth. Mae hyn yn golygu y gellir gwrthod mynediad i Flwyddyn 1 a Blwyddyn 2 pe bai cynnig lle yn arwain at anfantais o ran maint y dosbarth, hyd yn oed os na chyrhaeddwyd y nifer derbyn mewn perthynas â'r grwpiau blwyddyn hyn.

## A oes eithriadau i'r terfynau statudol ar faint dosbarthiadau babanod?

Mae'r terfyn o 30 ar faint dosbarthiadau babanod yn cyfeirio at drefniadaeth y dosbarthiadau ac nid i nifer y plant a gaiff eu derbyn. Er bod yn rhaid trefnu dosbarthiadau i gydymffurfio â'r terfyn lle bynnag y bo modd, mae Rheoliadau 2013 yn nodi amgylchiadau lle gellir derbyn disgyblion fel eithriadau i'r terfyn ar faint dosbarth.

Mae'r rhain yn cynnwys achosion lle gallai fod gan ddisgybl anghenion dysgu ychwanegol; ei fod yn blentyn sy'n derbyn gofal; neu fod rhieni'n dymuno cael addysg seiledig ar ffydd neu addysg cyfrwng Cymraeg a'r ysgol dan sylw yw'r unig un o fewn pellter rhesymol i gartref y plentyn.

## A yw'r trefniadau'n wahanol ar gyfer chweched dosbarth?

Efallai y bydd gan ysgol sydd â chweched dosbarth drefniadau derbyn gwahanol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol a myfyrwyr chweched dosbarth. Os felly, rhaid i'r awdurdod derbyn gynnal ymgynghoriad ar y trefniadau hynny, gwneud penderfyniad yn eu cylch, a'u cyhoeddi ar yr un pryd ac yn yr un modd â'r holl drefniadau derbyn eraill.

Gall ceisiadau am le mewn chweched dosbarth gael eu cyflwyno naill ai gan y rhiant neu'r person ifanc, neu'r ddau, a rhaid trin ceisiadau yn yr un modd ag unrhyw gais arall am le mewn ysgol.

Caniateir i awdurdodau derbyn bennu trefniadau ar gyfer derbyn i'r chweched dosbarth sydd wedi'u seilio'n gyfan gwbl ar ddethol yn ôl gallu; er enghraifft, i gael lle, mae'n rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer benodol o gymwysterau TGAU ar raddau penodol. Lle mae trefniadau o'r fath yn bodoli, nid yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â dewis rhieni (neu'r dysgwr) yn gymwys.

Rhaid i unrhyw awdurdod derbyn sy'n pennu trefniadau derbyn ar gyfer y chweched dosbarth sy'n seiliedig yn llwyr ar ddethol ddefnyddio'r trefniadau hynny yn yr un modd ar gyfer pobl ifanc sydd eisoes yn mynychu'r ysgol honno ond sy'n ceisio lle yn y chweched dosbarth ag ar gyfer y rheini sy'n gwneud cais i gael eu derbyn i'r ysgol am y tro cyntaf. Ym mhob achos arall lle nad oes meini prawf sy'n seiledig yn llwyr ar ddethol, ni fydd yn rhaid i'r bobl ifanc sydd eisoes yn mynychu'r ysgol wneud cais i gael eu derbyn i'r chweched dosbarth ac ni ellir gwrthod lle iddynt.

Rhaid i ysgolion beidio â chyfweld pobl ifanc na'u teuluoedd er mwyn derbyn i'r chweched dosbarth.

# 2. Apelio yn erbyn penderfyniadau

Cafodd y cod apelau derbyn i ysgolion ei gyhoeddi'n wreiddiol gan Lywodraeth Cymru yn 2013 ac fe'i ddiwygiwyd yn 2023. Mae'n gosod gofynion ac yn darparu canllawiau ar drefniadau ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniadau awdurdodau derbyn ar geisiadau am leoedd ysgol. Y prif newid yn 2023 oedd ychwanegu'r opsiwn i apelau derbyn gael eu cynnal o bell yn ogystal ag wyneb yn wyneb.

### A all rhieni apelio os na chynigir lle iddynt yn eu dewis ysgol?

Mae gan unrhyw riant (ac eithrio rhiant y mae ei blentyn wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol o leiaf) y gwrthodir lle i'w blentyn yr hawl i apelio i banel apelio annibynnol. Dylai'r llythyr gwrthod gan yr awdurdod derbyn egluro pam y bu'r rhiant yn aflwyddiannus, ynghyd â gwybodaeth am sut i wneud apêl. Fel arfer, mae **terfyn amser** ar gyfer cyflwyno apêl. Rhaid i'r terfyn amser hwn fod yn ddeg diwrnod gwaith o leiaf, er bod rhai awdurdodau lleol yn caniatáu hyd at 28 diwrnod calendr.

Nid oes hawl i apelio yn erbyn dyraniad lleoedd meithrin; yn hytrach, gellir ond apelio yn derbyn dyraniad lleoedd mewn ysgolion cynradd, ysgolion canol ac ysgolion uwchradd (gan gynnwys dosbarthiadau chwech / blwyddyn 12). Gall pobl ifanc eu hunain gyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â chynnig lle mewn chweched dosbarth.

### Pwy sy'n clywed apelau?

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu paneli apêl mewn perthynas ag ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, tra bod cyrff llywodraethu yn gyfrifol am wneud hynny mewn perthynas ag ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Gall awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sefydlu paneli ar y cyd.

Mae paneli apêl yn cynnwys naill ai tri neu bump aelod, ac mae'n rhaid i un ohonynt fod yn 'aelod lleyg'; hynny yw, heb brofiad personol o reoli unrhyw

ysgol neu ddarparu addysg mewn unrhyw ysgol. Rhaid i bob aelod fod yn annibynnol ar yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu perthnasol.

## Beth sy’n digwydd os caiff ceisiadau eu gwrthod oherwydd cyfyngiadau statudol ar faint dosbarthiadau babanod?

Pan fo cais am le mewn ysgol wedi’i wrthod oherwydd y byddai’r terfyn statudol o 30 ar faint dosbarthiadau babanod fel arall yn cael ei ragori ('anfatais o ran maint y dosbarth'), mae cyfle cyfyngedig i’r panel ategu’r apêl. Bydd y panel yn gallu ategu’r apêl **dim ond** os yw un neu fwy o'r seiliau a ganlyn yn berthnasol:

- byddai lle wedi’i gynnig i'r plentyn perthnasol pe bai trefniadau derbyn yr ysgol wedi cydymffurfio â’r gofynion cyfreithiol;
- byddai lle wedi’i gynnig i'r plentyn pe bai trefniadau derbyn sy’n cydymffurfio a’r gofynion perthnasol wedi'u gweithredu'n briodol; neu
- nid oedd y penderfyniad yn un y byddai awdurdod derbyn rhesymol wedi'i wneud o dan amgylchiadau'r achos dan sylw.

## Pa broses y mae apelau'n ei dilyn?

Rhaid dilyn **proses dau gam** ym mhob achos arall o ‘anfaintais’; hynny yw, lle mae ceisiadau'n aflwyddiannus oherwydd y byddent fel arall yn anfanteisiol i ddarparu addysg yn effeithlon neu wneud defnydd effeithlon o adnoddau. Fel arfer, y rheswm am hyn yw y byddai derbyn y disgyblion dan sylw yn golygu y byddai’r ysgol yn mynd y tu hwnt i nifer y derbyniadau a ganiateir.

Y cam cyntaf o’r broses yw’r **cam 'ffeithiol'**, sydd â’r nod o:

- ystyried a yw'r trefniadau derbyn a gyhoeddwyd yn cydymffurfio â'r cod derbyn i ysgolion a Deddf 1998;
- ystyried a gafodd trefniadau derbyn sy’n cydymffurfio eu dilyn yn gywir ac yn ddiduedd yn yr achos(ion) dan sylw; a
- phenderfynu fel mater o ffaith a fyddai’n anfanteisiol pe bai'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei dderbyn.

Rhaid i'r panel apêl ategu'r apêl yn ystod y cam cyntaf os nad yw'n fodlon ar y cam hwn y byddai’n anfanteisiol pe bai'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei dderbyn i'r ysgol. Os oes apelau eraill yn dod i law sy'n gysylltiedig â'r un ysgol, rhaid clywed y rhain i gyd cyn gwneud penderfyniad. Felly, cynhelir cam cyntaf apelau o'r fath ar yr un pryd fel arfer.

Os yw'r awdurdod derbyn wedi gallu bodloni'r panel apêl y byddai'n anfanteisiol derbyn y dysgwr / dysgwyr perthnasol, mae'r apêl yn mynd ymlaen i'r ail gam. Cynhelir apelau'n unigol ar y cam hwn.

Yr ail gam yw **'cyfnod cydbwyso'** i'r panel arfer ei ddisgresiwn, gan gydbwyso graddfa'r anfantais a phwysau achos yr apelydd cyn dod i benderfyniad. Mae **Pennod 5 o'r cod apelau derbyn i ysgolion** (yn benodol paragraff 5.19) yn cynnwys canllawiau ar sut y dylai'r panel fynd ati i daro'r cydbwysedd hwn.

## A all apelwyr ddod ag unrhyw un gyda nhw i'r gwrandawiad?

Gallant. Gall rhiant (neu berson ifanc yn achos apelau chweched dosbarth) fod yng nghwmni ffrind, cynghorydd, dehonglydd neu arwyddwr sy'n gallu siarad ar ei ran a'i gynrychioli. Mae rhieni'n rhydd i gael cynrychiolaeth gyfreithiol os ydynt yn dymuno.

## Os yw apelau'n aflwyddiannus, a ellir mynd â'r mater ymhellach?

Yn gyffredinol, **dim ond os cafwyd problemau gyda'r broses, yn hytrach nag anghytuno â'r canlyniad**, y gellir mynd â'r mater ymhellach.

Yn gyffredinol, nid oes gan rieni hawl i ail apêl mewn perthynas â'r un ysgol a'r un flwyddyn ysgol, ond gallant gyflwyno apêl newydd yn yr amgylchiadau a ganlyn:

- mae'r awdurdod derbyn yn cytuno i drefnu ail apêl oherwydd bod diffygion yn yr apêl gyntaf ac mae posibilrwydd sylweddol y gallai'r diffygion hyn fod wedi effeithio ar y canlyniad (gall hyn fod ar argymhelliad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (gweler isod) neu oherwydd bod yr awdurdod derbyn yn penderfynu gwneud hynny ar ei liwt ei hun); neu
- cyflwynwyd cais newydd i'r awdurdod derbyn oherwydd bod newid sylweddol wedi bod yn amgylchiadau'r rhiant neu'r person ifanc neu'r ysgol, ond roedd yr awdurdod o'r farn y dylid gwrthod y cais newydd hefyd.

Mae penderfyniad y panel apêl yn derfynol, a dim ond pan fydd y rhiant neu'r awdurdod derbyn yn llwyddo i wneud cais am **adolygiad barnwrol** o'r penderfyniad hwnnw y gellir ei wrthdroi (gweler isod).

Rhaid i awdurdodau derbyn roi lle i blentyn y mae ei rieni wedi ennill apêl.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw awdurdod dros benderfyniadau paneli apêl ac ni all adolygu na gwrthdroi'r penderfyniadau hyn. Fodd bynnag, mae gan **Lywodraeth Cymru** rai pwerau ymyrryd (o dan **Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013)** yn yr amgylchiadau a ganlyn:

- ni chafodd y panel ei gyfansoddi yn y modd cywir gan yr awdurdod derbyn; neu
- nid yw'r awdurdod derbyn wedi gweithredu'n rhesymol wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â'r broses apelio, neu mae'r awdurdod wedi methu â chyflawni unrhyw ddyletswydd gyfreithiol mewn perthynas â'r broses honno.

Mae gan **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** bwerau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar holl gyrff y Llywodraeth ac yn cynnig gwasanaeth annibynnol am ddim.

Gall yr Ombwdsmon ymchwilio i gwynion ysgrifenedig ynghylch **camweinyddu** gan banel apêl derbyn. Mae camweinyddu yn ymwneud â materion fel methu â gweithredu'n annibynnol ac yn deg, yn hytrach na chwynion lle mae unigolyn yn teimlo bod y penderfyniad a wnaed yn anghywir. Mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion, gall yr Ombwdsmon:

- edrych ar gwynion ynglŷn â gweithdrefnau derbyn ysgolion yng Nghymru a'r broses ar gyfer apelau derbyn;
- edrych ar gwynion gan rieni sydd o'r farn bod awdurdod lleol wedi gweithredu ei weithdrefn derbyn i ysgolion mewn modd annheg; ac
- edrych ar gwynion gan rieni sydd o'r farn bod panel apêl wedi gweithredu'n amhriodol.

Ni all yr Ombwdsmon orfodi awdurdod lleol i gynnig lle i blentyn mewn ysgol. Ni all ychwaith wrthdroi penderfyniad y panel. Fodd bynnag, os yw'r Ombwdsmon o'r farn bod gwrandawiad y panel yn amhriodol neu'n annheg, gall argymell y dylai panel newydd glywed yr apêl berthnasol.

Gellir cysylltu â'r Ombwdsmon ar 0300 790 0203 neu drwy e-bost yn **holwch@ombwdsmon.cymru**. Gall swyddfa'r Ombwdsmon gynghori a oes modd iddynt helpu ymhellach.

Math o achos llys lle mae barnwr yn adolygu cyfreithlondeb penderfyniad neu weithred gan gorff cyhoeddus yw **adolygiad barnwrol.** Mae adolygiadau

barnwrol yn herio'r ffordd y cafodd penderfyniad ei wneud, yn hytrach na'r casgliad a ddaethpwyd iddo. Ni fydd y llys yn newid y penderfyniad i'r hyn y mae'n ei ystyried y penderfyniad 'cywir'. Gellir defnyddio adolygiad barnwrol i adolygu penderfyniadau paneli apêl sy'n trafod derbyniadau gan ysgolion. Adolygiad barnwrol yw'r rhwymedi dewis olaf, a dylid ei ddefnyddio dim ond ar ôl i'r holl ymdrechion eraill i ddatrys mater fethu.